



Diogelu Oedolion Cynhadledd 17 Tachwedd 2021 Agenda a'r Bywgraffiadau

Agenda'r Bore:

- 10:00 Cyflwyniad
Jane Randall, Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- 10:05 Neges wedi ei recordio gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol
- 10:10 Cam-drin pobl hŷn – sut y gallwn wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth,
gwaith atal a chymorth
Helena Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn
- 10:55 Diogelu Oedolion a Hunan-esgeulustod
Yr Athro Suzy Braye, Prifysgol Sussex
- 11:40 Cynllun Cenedlaethol i atal pobl hŷn rhag cael eu cam-drin
Sarah Cooper a Phil Mulraney, Llywodraeth Cymru
- 12:25 Panel holi ac ateb
- 12:30 Diwedd sesiwn y bore

Agenda'r Prynawn:

- 13:30 Cyflwyniad
Jane Randall, Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- 13:35 Canfyddiadau o ddadansoddiad thematig o Adolygiadau Ymarfer
Oedolion (APR) yng Nghymru
*Dr Alyson Rees a Dr Tom Slater, Prifysgol Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau
Cymdeithasol*
- 14:20 Safbwynt Arolygiaeth Gofal Cymru a Dysgu
Vicky Poole, Arolygiaeth Gofal Cymru
- 15:05 Diogelu ac Atal Trais
Jon Drake a Lara Snowdon, Uned Atal Trais Cymru
- 15:50 Panel holi ac ateb a sylwadau i gloi
- 16:00 Diwedd

Jane Randall

Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cyfraniad Jane i'r Bwrdd Cenedlaethol fydd hanes o weithio fel arweinydd clinigol profiadol iawn ym maes iechyd, diogelu amlasiantaethol a diogelu'r cyhoedd, ar ôl bod yn Bennaeth Diogelu yn un o fyrddau iechyd Cymru. Mae'n gyfathrebwr medrus ac effeithiol ac mae'n gallu darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol a gwneud penderfyniadau ynglŷn â materion cymhleth.

Heléna Herklots CBE

Comisiynydd Pobl Hŷn

Heléna yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – sef rôl statudol annibynnol a sefydlwyd ar sail gyfreithiol er mwyn amddiffyn pobl hŷn a hybu eu hawliau. Dechreuodd yn y swydd yn 2018 ar ôl 30 mlynedd yn gweithio ar faterion yn ymwneud â heneiddio a phobl hŷn. Gan ddechrau ei gyrfa yn gweithio â phobl hŷn a'u teuluoedd yn uniongyrchol mewn canolfannau dydd a chartrefi gofal, mae wedi dylanwadu ar bolisi cyhoeddus, wedi ymgyrchu dros newid ac wedi datblygu a darparu gwasanaethau cymorth i bobl hŷn.

Cyn iddi gael ei phenodi'n Gomisiynydd Pobl Hŷn, roedd Heléna yn Brif Weithredwr Carers UK, sef yr elusen aelodaeth genedlaethol i ofalwyr di-dâl. Cyn hynny, roedd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau yn Age UK, Pennaeth Polisi yn Age Concern England a Rheolwr Strategaeth Gorfforaethol yn Anchor.

Mae Heléna wedi arwain nifer o grwpiau cynghori Llywodraeth y DU ac wedi cyfrannu atynt, gan drafod pynciau megis gofal a chymorth, tai, dementia a gofalwyr. Treuliodd flwyddyn ar secondiad yn yr Adran Iechyd hefyd yn gweithio ar faterion pobl hŷn. Mae Heléna yn Gadeirydd Grŵp Cynghori Her Heneiddio Iach Strategaeth Ddiwydiannol y DU ac mae'n Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau. Dyfarnwyd CBE i Heléna yn 2017 am ei gwasanaethau i ofalwyr.

Yr Athro Suzy Braye

Athro Emeritws Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Sussex

Mae Suzy Braye yn Athro Emeritws Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Sussex. Mae ei chefnidir proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol a rheoli gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae ei gwaith academaidd, sy'n cynnwys ymchwil a chyhoeddiadau ar lythrennedd cyfreithiol, gofal cymdeithasol oedolion, diogelu oedolion a hunan-esgeulustod, wedi cael dylanwad pwysig ar y gwaith o ddatblygu cyfreithiau, polisiau ac arferion ym maes diogelu oedolion yn Lloegr. Mae bellach yn gweithio fel ymgynghorydd ac ymchwilydd annibynnol ym maes diogelu oedolion, ac yn gweithredu fel adolygydd annibynnol ar gyfer adolygiadau diogelu oedolion.

Sarah Cooper and Phil Mulraney

Llywodraeth Cymru

Mae Sarah Cooper a Phil Mulraney yn gweithio yn y Tîm Diogelu ac Eiriolaeth, Is-adran Galluogi Pobl, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru. Mae'r Tîm yn gyfrifol am Ddiogelu ac Eiriolaeth ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru.

Mae Sarah wedi gweithio mewn nifer o rolau yn Llywodraeth Cymru dros y 26 mlynedd diwethaf, cyn symud i swydd Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth ym mis Rhagfyr 2019.

Mae Phil wedi gweithio mewn nifer o rolau yn Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ers mwy na 30 mlynedd, gan gynnwys datblygu deddfwriaeth. Phil sy'n arwain ar Ddiogelu Oedolion, a chwaraeodd rôl allweddol wrth ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n sylfaen ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dr Alyson Rees

Prifysgol Caerdydd

Mae Dr Alyson Rees yn Ddarllenydd yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, ac yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Canolfan Ymchwil CASCADE. Mae Alyson wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o ymchwil yn ymwneud â Gwaith Cymdeithasol a gofal cymdeithasol gan gynnwys gwaith ar blant sy'n derbyn gofal, cam-drin domestig a chyfiawnder troseddol.

Dr Tom Slater

Prifysgol Caerdydd

Mae Tom yn uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae ganddo ddiddordeb ym maes atal hunanladdiad a diogelu. Fel aelod o'r Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE), mae Tom wedi ymgymryd ag ymchwil ar amrywiaeth o bynciau sensitif, gan gynnwys safbwyntiau ymarferwyr ar grwpiau hunanladdiad pobl ifanc, diogelu ym maes addysg yn y cartref a phlant sy'n ymddieithrio wrth eu rhieni.

Vicky Poole

Dirprwy Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru

Penodwyd Vicky Poole yn Ddirprwy Brif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar 1 Tachwedd 2018, ar ôl ymuno â Llywodraeth Cymru yn 2014 fel Cyfarwyddwr Rhanbarthol AGGCC ar gyfer y gogledd.

Dechreuodd Vicky ei gyrfa fel nyrs iechyd meddwl cyn symud i weithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gan ddechrau yn Leeds cyn symud i ogledd Cymru yn

1990. Mae Vicky wedi cyflawni sawl swydd o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys rheoli cartref gofal a bod yn rheolwr comisiynu a chynllunio strategol.

Mae gan Vicky radd Meistr mewn Rheoli Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae wedi cyflawni nifer o swyddi ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ynghyd â gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol yn y gogledd. Gweithiodd hefyd fel rheolwr gwelliannau ar gyfer yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn wreiddiol o Stoke on Trent, mae Vicky yn byw gyda'i phartner yn Ninbych.

Jon Drake

Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru

Mae Jon yn gyn-swyddog yr Heddlu sydd wedi gwasanaethu am dros 30 mlynedd yn Swydd Stafford a Heddlu De Cymru yn dilyn hynny lle y bu'n Brif Gwnstabl Cynorthwyol. Yn ystod ei gyfnod yn Heddlu De Cymru, roedd Jon yn gyfrifol am droseddau cyfundrefnol difrifol a diogelu pobl sy'n agored i niwed, ac ef oedd arweinydd yr heddlu yng Nghymru ar gyfer trais difrifol. Ef oedd arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gudd-wybodaeth, a oedd yn cynnwys meysydd megis dadansoddi. Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd Jon ei benodi'n Gyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru, sy'n anelu at atal trais yng Nghymru drwy ddull iechyd y cyhoedd.

Lara Snowdon

Arweinydd y Rhaglen Atal Trais, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymunodd Lara â Chanolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd, Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 fel Arweinydd y Rhaglen Atal Trais. Fel rhan o'r rôl hon, roedd Lara yn un o aelodau sefydlol Uned Atal Trais Cymru, ac mae bellach yn arwain gweithgarwch iechyd y cyhoedd yr Uned a'i dull strategol. Mae ei rôl yn ymwneud ag ymchwil, gwerthuso, arweinyddiaeth strategol, cefnogi dull iechyd y cyhoedd o atal trais, a rheoli tîm amlasiantaethol o ymchwilwyr ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd. Mae ganddi ddwy radd Meistr, un ym maes iechyd y cyhoedd a'r llall ym maes cysylltiadau rhyngwladol, ac mae wedi ymgymryd â mentoriaeth â Sefydliad Iechyd y Byd ym maes atal trais. Yn ddiweddar, dechreuodd PhD ym maes Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl, gan ymchwilio i ffyrdd sylfaenol o atal trais rhyngpersonol.

Cofrestrwch ar Eventbrite

Cynhelir y webinar ar Microsoft Teams. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi nodi eich cyfeiriad e-bost yn gywir wrth gofrestru, gan y byddwn yn anfon dolen at y cyfeiriad hwn i chi allu ymuno â'r webinar yn agosach at yr amser.

#DiogeluCymru